



## Swyddog Aelodaeth a Hyfforddiant, Cymru (Cyfnod Mamolaeth – 9 mis)

### Gwybodaeth recriwtio – Medi 2020

Adrodd i: Cyfarwyddwr Polisi a Materion Allanol

Cyflog:	£23,983 y flwyddyn (pro rata)
Oriau:	28 awr yr wythnos (4 diwrnod)
Cyfnod:	Dros-dro (Cyfnod mamolaeth – 9 mis)
Gwyliau:	25 diwrnod o wyliau â thâl y flwyddyn yn ogystal â gwyliau banc (pro rata).
Buddion:	Cynllun pensiwn cyfrannol 5% a chynllun gofal iechyd preifat arian yn ôl (ar ôl cwblhau cyfnod prawf o dri mis).

Prif leoliad y swydd: Caerdydd (gweithio gartref ar hyn o bryd oherwydd Covid-19)

### Ynglŷn â LawWorks

LawWorks yw'r enw gweithredu ar gyfer y Solicitors Pro Bono Group. Wedi'i sefydlu yn 1997, rydym yn elusen sy'n hyrwyddo, yn cefnogi ac yn annog gweithgaredd pro bono cyfreithiol ar draws Cymru a Lloegr, gan ddefnyddio'i brofiad a'i ddealltwriaeth i sicrhau bod ymdrechion pro bono yn cael eu targedu lle gallant fod fwyaf effeithiol a chael yr effaith fwyaf.

Mae ein gwaith yn cynnwys prosiect pwrpasol yng Nghymru sy'n defnyddio staff lleol i gefnogi mentrau pro bono, datblygu cyfleoedd pro bono newydd ac i gynyddu'r ymgysylltiad ymhlith y proffesiwn cyfreithiol yng Nghymru. Mae LawWorks yn falch o fod wedi derbyn cyllid pum mlynedd wrth Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, i adeiladu a datblygu ein gwaith yng Nghymru.

Rydym yn gweithio'n bennaf gyda chyfreithwyr (cwmnïau a thimau mewnol) yn ogystal ag ysgolion y gyfraith a myfyrwyr y gyfraith, a gwirfoddolwyr a sefydliadau cyfreithiol ac anghyfreithiol eraill. Mae gan LawWorks tua 150 o aelodau, gan gynnwys rhai o fusnesau mwyaf y Ddinas a chwmnïau rhyngwladol sydd â swyddfa yn Llundain, cwmnïau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol, timau mewnol, ysgolion y gyfraith ac elusennau.

Mae LawWorks yn sefydliad cymharol fach gydag 20 aelod o staff (9 rhan-amser) a thîm bach o wirfoddolwyr ac interniaid. Mae 14 aelod o staff fel arfer yn y swyddfa yng nghanol Llundain (gweithio gartref ar hyn o bryd oherwydd y Coronafeirws), gyda 6 aelod arall o staff yng Nghymru, Canolbarth Lloegr, De Orllewin Lloegr, Gogledd Orllewin Lloegr, Gogledd a Dwyrain Lloegr. Mae yna nifer o rannau allweddol i'n gwaith cyfredol i gefnogi a hwyluso pro bono:

- Rydym yn cefnogi rhwydwaith cynyddol o dros 290 o glinigau cynghori pro bono annibynnol lleol ar draws Cymru a Lloegr. Rydym yn gweithio gyda chyfreithwyr, asiantaethau cynghori, elusennau ac eraill i sefydlu neu ddatblygu clinigau newydd ac i ddarparu gwybodaeth a chefnogaeth barhaus, hyfforddiant ac adnoddau i wirfoddolwyr a chydlynwyr clinigau;
- Mae ein rhaglen nid-er-elw yn hwyluso'r ddarpariaeth cymorth cyfreithiol am ddim i elusennau llai a sefydliadau nid-er-elw, gyda chefnogaeth cyfreithwyr gwirfoddol o blith aelodau LawWorks. Rydym hefyd yn cynnig fideos hyfforddi am ddim ar-lein i elusennau, sy'n cwmpasu nifer o'r materion cyfreithiol cyffredin sy'n eu hwynebu;
- Rydym yn cefnogi nifer o brosiectau 'arbenigedd eilaidd' i gefnogi datblygiad pro bono mwy 'manwl' mewn meysydd o gyfraith lles cymdeithasol (e.e. gwaith achos penodol a/neu gynrychiolaeth). Mae hyn yn cynnwys cefnogi cwmnïau a chyfreithwyr unigol i ddarparu cynrychiolaeth mewn tribiwnlysoedd apêl nawdd cymdeithasol haen 1af, prosiect cyflogau di-dâl, a (gan weithio gyda'r elusen Together for Short Lives ar gyfer prosiect o'r enw 'Voices for Families'), i ddarparu cyngor cyfreithiol i rieni a gofalwyr plant sydd â chyflyrau sy'n cyfyngu ar fywyd.
- Eleni, lansiyd dau brosiect newydd: prosiect technoleg cyfreithiol newydd (Free Legal Answers) sy'n canolbwyntio ar ddarparu cyngor cyfreithiol cychwynnol i gleientiaid ar incwm isel ar blatfform ar-lein; a chydweithio gyda Pro Bono Connect i gysylltu cyfreithwyr a bargyfreithwyr sy'n cydweithio ar pro bono ar ymgyfreitha sifil. Ar hyn o bryd rydym yn datblygu fersiwn DU o'r porth pro bono Justice Connect.

Mae LawWorks yn sefydliad partner ar gyfer Strategaeth Cymorth Ymgyfreitha Personol, gan weithio gyda Law for Life, Uned Cymorth Personol (PSU), Cyngor y Llysoedd Cyfiawnder Brenhinol, Eiriolaeth a'r Sefydliad Mynediad at Gyfiawnder. Wedi'i gyllido gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder, bwriad y Strategaeth yw gwella

gwybodaeth, cefnogaeth, cyngor a chynrychiolaeth i unigolion sy'n mynd i lys neu dribiwnlys heb fargyfreithiwr.

Yn ogystal ag annog a chefnogi'r ddarpariaeth pro bono, rydym hefyd yn gweithio i fynd i'r afael â'r rhwystrau i gyfiawnder ac i ddarparu 'llais polisi' ar gyfer pro bono – er enghraifft, gweithio gyda rheoleiddwyr i leihau rhwystrau i pro bono, a gweithio gyda'n haelodau a chyrff proffesiynol i ddylanwadu ar bolisi cymorth cyfreithiol, moderneiddio cyfiawnder ac agweddau eraill ar fynediad at gyfiawnder, gan gynnwys, er enghraifft, cyflwyniadau i'r Comisiwn Cyfiawnder yng Nghymru.

## **LawWorks Cymru a'r rôl hon**

Mae ein profiad yng Nghymru wedi dangos gwerth cael staff yn lleol i weithio gyda'r sector cyfreithiol, Prifysgolion, y trydydd sector a rhanddeiliaid eraill yn y system gyfiawnder. Mae ein cynlluniau ar gyfer y pum mlynedd nesaf yn cynnwys:

- Datblygu ein hyfforddiant yng Nghymru a chynyddu nifer yr ymarferwyr a myfyrwyr y gyfraith sy'n gwirfoddoli mewn clinigau pro bono;
- Tyfu ein haelodaeth a'n cysylltiadau â chwmnïau cyfreithiol yng Nghymru tra'n gweithio tuag at fodel aelodaeth cynaliadwy hirdymor;
- Cynyddu nifer yr unigolion yng Nghymru sy'n derbyn cyngor cyfreithiol am ddim, gwybodaeth a chymorth mewn clinigau o fewn rhwydwaith LawWorks gyda phwyslais ar ganlyniadau llesiant;
- Hwyluso'r broses o ddatblygu clinigau newydd, gan ganolbwyntio'n benodol ar leoliadau a phartneriaethau gofal iechyd.

Mae ein gwaith yng Nghymru yn cael ei lywio gan Grŵp Cynghori gydag arbenigedd a phrofiad o'r sector cyfreithiol yng Nghymru, ac rydym yn cydweithio'n agos â Chymdeithas y Gyfraith yng Nghymru a chymdeithasau cyfreithiol lleol. Gyda chymorth cyllid Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yng Nghymru, rydym yn gallu cynnig aelodaeth am ddim i sefydliadau cyfreithiol yng Nghymru, ond yn y tymor hwy y bwriad yw trosglwyddo i aelodaeth lle codir ffi.

Rydym yn recriwtio, dros gyfnod mamolaeth, swydd *Swyddog Aelodaeth a Hyfforddiant* (4 diwrnod). Bydd y rôl hon yn gweithio'n agos gyda'r *Swyddog Cefnogi a Datblygu Clinigau (Cymru)*, sy'n gweithredu fel y man cyswllt cyntaf i glinigau yng Nghymru am arweiniad a chymorth. Gan weithio fel tîm LawWorks Cymru, bydd y ddwy swydd yn adeiladu ar y gwaith a wnaed yng Nghymru yn ystod y tair blynedd ddiwethaf.

Blaenoriaethau allweddol ar gyfer y rôl fydd:

- Datblygu a thyfu aelodaeth LawWorks gyda sefydliadau cyfreithiol, gan gynnwys cwmnïau preifat a thimau corfforaethol mewnol sydd â diddordeb mewn pro bono;
- Rhoi arweiniad a chefnogaeth i'n haelodau a'n gwirfoddolwyr, gan nodi anghenion hyfforddi a threfnu digwyddiadau hyfforddi a chefnogi;

- Hyrwyddo a dathlu cyfleoedd pro bono ar draws Cymru a chefnogi aelodau a'u gweithwyr i wirfoddoli;
- Datblygu a chyflwyno digwyddiadau ymgysylltu i hyrwyddo a dathlu cyfleoedd pro bono ar draws Cymru.

Bydd yr ymgeisydd delfrydol yn rhwydweithio'n hyderus ac yn gallu gweld posibiliadau cyfleoedd a'u datblygu hyd at y diwedd. Mae holl waith LawWorks yn cael ei gyflwyno drwy bartneriaethau, felly mae'n hollbwysig bod yr ymgeisydd yn hawddgar, yn cydweithio'n dda ac yn gyfathrebwr effeithiol. Bydd gan yr ymgeisydd delfrydol gefndir neu wybodaeth o'r sector cyfreithiol neu'r sector cyngori yng Nghymru, a bydd y rôl hefyd yn cefnogi amcanion ehangach y tîm Polisi a Materion Allanol yn enwedig yng nghyd-destun Cymru.

Ar hyn o bryd, mae holl staff LawWorks yn gweithio gartref, ac mae LawWorks yn y camau cynnar o chwilio am swyddfa newydd; i staff yng Nghymru efallai y bydd opsiwn o ofod swyddfa hyblyg sy'n cael ei rannu yng Nghaerdydd yn y dyfodol. Byddai disgwyl teithio rheolaidd ledled Cymru ac yn achlysurol i swyddfa LawWorks yng nghanol Llundain unwaith y bydd y cyfyngiadau teithio yn llacio. Bydd trefniadau gweithio hyblyg ar gael ac er y gallai fod rhywfaint o waith ar benwythnosau neu gyda'r nos o bryd i'w gilydd, rhoddir amser i ffwrdd i wneud iawn am hynny.

Rydym yn elusen brysur a chymhleth (o ystyried ein maint), gyda thîm cyfeillgar, ethos positif ac ymrwymiad i wneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau bod LawWorks yn sefydliad cryf ac effeithiol ac yn lle gwych i weithio.

Mae'r rôl yn cynnig amrywiaeth, ymreolaeth, y cyfle i ddatblygu mentrau newydd, a chyfle i gefnogi'ch cymuned leol.

## **Tasgau a dyletswyddau allweddol**

1. Arwain ar weithgareddau recriwtio aelodau yng Nghymru gyda'r nod o gynyddu aelodaeth yng Nghymru i dargedau y cytunwyd arnynt. Bydd hyn yn cynnwys mapio diddordeb, eirioli'r achos busnes am pro bono a datblygu sylfaen dystiolaeth i gefnogi'r gwaith hwn.
2. Bod yn gyfrifol am gyflwyno rhaglen hyfforddi LawWorks yng Nghymru, gan gynnwys nodi anghenion hyfforddi ein rhanddeiliaid, dod o hyd i hyfforddwyr, trefnu pob agwedd ar y sesiynau hyfforddi, hysbysebu'r digwyddiadau, cadw cofnodion ac ymgorffori monitro a gwerthuso'r sesiynau wrth eu cyflwyno yn y dyfodol.
3. Darparu'r lefel uchaf o ofal cwsmer i aelodau LawWorks. Bydd hyn yn cynnwys ymgysylltu ag aelodau i nodi eu hanghenion, eu cynlluniau a'u blaenoriaethau mewn perthynas â pro bono a theilwra ein cymorth a'n deunydd cyfathrebu yn unol â hynny.

4. Darparu deunydd cyfathrebu a gweithgareddau marchnata LawWorks Cymru (sy'n seiliedig ar gynllun strategol LawWorks Cymru) er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth o LawWorks a hyrwyddo gwirfoddoli pro bono yn y proffesiwn cyfreithiol a rhanddeiliaid allweddol eraill, yng Nghymru. Bydd hyn yn cynnwys cyflwyno cyfres o ddiwyddiadau ymgysylltu ledled Cymru (neu eu cynnal o bell).
5. Hwyluso'r broses o rannu rhwng rhanddeiliaid yng Nghymru i nodi arfer gorau a chyfleoedd lleol ar gyfer cydweithio ac i roi cefnogaeth wrth ddatblygu'r rhain. Bydd y gwaith hwn yn canolbwyntio ar gysylltu gwasanaethau sy'n cefnogi ymgyfreitha personol.
6. Meithrin cysylltiadau gyda sefydliadau nid-er-elw lleol a grwpiau ymbarél i gynyddu ceisiadau i wasanaeth gwaith achos Rhaglen Nid-er-Elw LawWorks yng Nghymru.
7. I fod yn bwynt cyswllt i'n haelodau a'n rhanddeiliaid yng Nghymru, er enghraifft cymorth i ddatrys problemau aelodau, mynediad at adnoddau a sicrhau bod gwybodaeth gyswllt yn gyfoes drwy ddefnyddio ein platfform rheoli cysylltiadau cwsmeriaid (CRM) (Salesforce).
8. Yn ogystal â thîm ehangach LawWorks, casglu a rhannu gwybodaeth am werthusiadau ac asesiadau effaith i lywio polisi ac adrodd ar y broses o ddarparu cyngor pro bono yn genedlaethol, a chreu adroddiadau yn ôl yr angen.
9. Adrodd yn ôl i Grŵp Cyngori LawWorks Cymru ar gynnydd, gan gynnwys drwy gyfarfodydd chwarterol, a defnyddio arbenigedd, cysylltiadau a rhwydweithiau aelodau'r Grŵp Cyngori i gefnogi'r broses o gyflwyno gwaith LawWorks yng Nghymru.
10. Cyfrannu at ddatblygiad a rhediad cyffredinol LawWorks, gan gyflawni unrhyw dasgau a all fod yn ofynnol o bryd i'w gilydd.

## Manyleb Person

	Hanfodol	Dymunol
1. Profiad sylweddol o weithio ar (neu'r gallu i gyflawni) rôl debyg neu gyfwerth (e.e., yn cynnwys rhwydweithio, meithrin perthnasoedd, cymorth i rhanddeiliaid, cydweithio, aelodaeth a gofal cwsmer).	√	
2. Profiad o ddyfeisio a chyflawni cynlluniau prosiect, a sicrhau bod targedau personol a sefydliadol yn cael eu cyflawni neu y rhagorir arny'n nhw.	√	

3. Profiad blaenorol o weithio mewn sefydliad aelodaeth/rhwydwaith gyda rhan uniongyrchol mewn recriwtio, rhoi cymorth a chadw aelodau.		√
4. Profiad o gynllunio, marchnata a darparu hyfforddiant a digwyddiadau o ansawdd uchel yn brydlon ac o fewn y gyllideb.	√	
5. Gwybodaeth dda o'r proffesiwn cyfreithiol yng Nghymru, sut caiff ei drefnu a sut mae bargyfreithwyr a chwmnïau cyfreithiol yn ymgysylltu â CSR a gwirfoddoli. <i>a. Er ei fod yn fuddiol, sylwer nad yw cymhwyster cyfreithiol yn rhagofyniad ar gyfer y rôl hon</i>	√	
6. Dealltwriaeth a gwybodaeth am y trydydd sector yng Nghymru.		√
7. Dealltwriaeth o'r tirlun polisi yng Nghymru (e.e. profiad o ymgysylltu â'r Senedd, Llywodraeth Cymru neu sefydliadau datganoledig eraill).		√
8. Sgiliau cyfathrebu gwych ar lafar ac ar bapur, gan gynnwys gwneud cyflwyniadau. <i>a. Er ei fod yn fuddiol, sylwer nad yw sgiliau Cymraeg yn faen prawf hanfodol ar gyfer y rôl hon</i>	√	
9. Sgiliau rhyngpersonol gwych a hyder wrth rwydweithio gyda phobl sy'n amrywio o ran cefndir ac hynafedd.	√	
10. Y gallu i sicrhau ymrwymiad a chydweithrediad eraill.	√	
11. Agwedd hyblyg, positif, rhagweithiol sy'n canolbwyntio ar atebion.	√	
12. Profiad o weithio'n effeithiol mewn tîm i gyflawni amcanion cytûn.	√	
13. Dealltwriaeth gadarn o ddulliau cyfathrebu ar y we a sgiliau TG cadarn gan gynnwys y gallu i ddefnyddio neu ddeall platfformau digwyddiadau ar-lein (e.e. Zoom), pecynnau arolygon ar-lein, cronfeydd data neu systemau rheoli cysylltiadau cwsmeriaid (CRM). <i>a. Byddai profiad o ddefnyddio cronfa ddata Salesforce yn ddymunol, ond gellir cynnig hyfforddiant</i>	√	
14. Y gallu i deithio'n rheolaidd ar draws Cymru a all gynnwys dechrau'n gynnar, gorffen yn hwyr ac aros dros nos yn achlysurol.	√	
15. Profiad o weithio'n annibynnol heb fawr oruchwyliaeth.	√	
16. Hyderus yn eich gallu i ddatblygu strategaethau i oresgyn yr heriau o weithio'n bell wrth weddill eich tîm.	√	
17. Ymrwymiad i werthoedd ac ethos LawWorks a'r sector cynghori nid-er-elw.	√	
18. Ymrwymiad i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.	√	

## Sut i wneud cais

Anfonwch CV a llythyr eglurhaol yn amlinellu pam mae gennych ddi-ddordeb yn y rôl hon gan dynnu sylw at sut mae'ch sgiliau, eich gwybodaeth a'ch profiad yn cyd-fynd â'r fanyleb person y manylir arni uchod.

**Gwnewch yn siŵr eich bod yn cwmpasu pob agwedd ar y fanyleb person yn eich cais.**

Mae LawWorks yn gyflogwr cyfle cyfartal. Rydym yn annog ceisiadau beth bynnag yw eich hil, crefydd, rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, anableddeu neu oedran. Wrth wneud cais, anfonir arolwg monitro cyfle cyfartal atoch a fydd yn cael ei gadw ar wahân i'ch cais.

Gwnewch gais erbyn 4pm **ar ddydd Mawrth 22ain Medi 2020**. Ni dderbynnir ceisiadau hwyr.

Anfonwch eich cais ar e-bost at [applications@lawworks.org.uk](mailto:applications@lawworks.org.uk) gan ddyfynnu "*Cais – Swyddog Aelodaeth a Hyfforddiant Cymru*" yn y llinell bwnc.

Am sgwrs anffurfiol ynglŷn â'r rôl, cysylltwch â James Sandbach ar [james.sandbach@lawworks.org.uk](mailto:james.sandbach@lawworks.org.uk) (Cyfarwyddwr Polisi a Materion Allanol).

## **Rhestr Fer a Chyfweliadau**

Rydym yn bwriadu cyfweld yr ymgeiswyr sydd ar y rhestr fer yn ystod yr wythnos yn cychwyn 28ain Medi 2020. Mae'n ddrwg gennym nad ydym yn gallu rhoi adborth i ymgeiswyr nad ydynt ar y rhestr fer ar gyfer y swydd hon. Os na chawsoch eich gwahodd i gyfweliad erbyn diwedd Medi, nid yw eich cais wedi cyrraedd y rhestr fer.